



Cadeirydd Annibynnol

a Chyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol

Awst 2023

Am fod ein Cadeirydd blaenorol wedi ymuno â phrif Fwrdd Bwrdd Criced Cymru a Lloegr (ECB) yn ddiweddar, mae gennym gyfle ar hyn o bryd i recriwtio Cadeirydd Annibynnol newydd, a Chyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol (am fod un o'r Cyfarwyddwyr presennol ar fin symud dramor i fyw).

Rydym yn un o 39 Bwrdd Criced Sirol sy'n ffurfio'r ECB, a'r Corff Llywodraethol Cenedlaethol ar gyfer criced yng Nghymru, felly rydym yn bodoli 'i arwain, ysbrydoli a dylanwadu ar dwf, ansawdd a hygyrchedd criced yng Nghymru'.

Rydym bellach yn chwilio am Gadeirydd newydd ac un Cyfarwyddwr Anweithredol i ymuno â'n Bwrdd i'n helpu i gyflawni ein huchelgeisiau strategol a'n gweledigaeth o sicrhau "Criced i gipio dychymyg Cymru." Fel Cyfarwyddwr Bwrdd, byddwch yn gwneud gwiriadau hanfodol ac yn darparu heriau, mentora a chefnogaeth i Criced Cymru, gan sicrhau ein bod yn cynnal y safonau llywodraethu uchaf. Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar effeithiolrwydd y Bwrdd ac rydym wedi meithrin diwylliant o welliant parhaus, yr ydym yn annog holl aelodau'r Bwrdd i gyfrannu ato er mwyn ein gyrru ymlaen.

Bydd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Anweithredol yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o feithrin amgylchedd Bwrdd cadarn, cydweithredol a strategol. Byddant yn ymroddedig i gyflawni canlyniadau rhagorol ymhob lefel o'r gêm, gan sicrhau bod cymunedau lleol yn cael cyfleoedd ystyrlon i ymgysylltu â chriced.

Bydd y Cadeirydd, yn arbennig, yn gwasanaethu fel cynrychiolydd allanol amlwg ar gyfer ein sefydliad. Bydd yn dangos sgiliau llysgenhadol rhagorol i eirioli dros Criced Cymru yn genedlaethol ac i feithrin perthnasoedd cadarnhaol ac effeithiol o fewn y gymuned griced a thu hwnt. Trwy bwysleisio ein hymrwymiad i bob lefel o'r gêm, bydd y Cadeirydd yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant, gan annog cyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Agwedd hanfodol ar y rôl hon fydd bod yn hygyrch ac yn weladwy i'r holl randdeiliaid, gan ymgysylltu'n rhagweithiol ag unigolion a grwpiau amrywiol.

Rydym yn benderfynol o greu Bwrdd sy'n cynrychioli'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn chwilio am unigolion sy'n dod ag amrywiaeth o feddyliau, gwybodaeth, arbenigedd proffesiynol a phrofiadau byw i'n Bwrdd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n rhannu ein gweledigaeth ac sydd â'r gallu a'r arbenigedd i gyfrannu at effaith gadarnhaol criced yng Nghymru.

Er y byddai angerdd am griced yn fanteisiol, rydym hefyd yn annog ceisiadau gan unigolion sy'n meddu ar egni a brwdfrydedd am effaith gadarnhaol chwaraeon a gweithgareddau elusennol ar gefnogi lles, meithrin cydlyniant cymdeithasol, a bod o fudd i gymunedau lleol.



Mae gwybodaeth, ymrwymiad a dealltwriaeth ddofn o Gymru yn hanfodol ar gyfer y rôl. Er nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad, byddem yn annog ac yn gwerthfawrogi diddordeb yn y defnydd a wneir o'r iaith yn y wlad a pharodrwydd i ddysgu rhai "cyfarchion ac ymadroddion sgwrsio" sylfaenol.

LLEOLIAD Y BRIF SWYDDFA: Stadiwm Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9XR.

TYMOR: Penodir cyfarwyddwyr am gyfnod o dair blynedd a gallant wasanaethu am uchafswm o naw mlynedd yn olynol. Gall y Cadeirydd wasanaethu am hyd at 3 blynedd, a chaniateir uchafswm o ddau dymor o'r fath.

YMRWYMIAD AMSER: Yn nodweddiadol, byddai disgwyl i'r Cadeirydd dreulio 2 i 4 diwrnod y mis ar fusnes Criced Cymru, ond gall hyn gynyddu mewn cyfnodau eithriadol brysur neu gritigol. Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol fel arfer yn treulio 1 i 2 ddiwrnod y mis ar fusnes Criced Cymru.

Mae Bwrdd Criced Cymru fel arfer yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn, gan gynnwys y CCB a gynhelir ym mis Hydref. Yn ogystal â phrif gyfarfodydd y Bwrdd, gofynnir i Gyfarwyddwyr y Bwrdd wasanaethu ar is-bwyllgor(au) a mynychu digwyddiadau swyddogol fel cyflwyniadau, rowndiau terfynol cystadlaethau a digwyddiadau perthnasol eraill fel y byddent ar gael.

TÂL: Gwirfoddol ond telir treuliau.

I gael rhagor o fanylion, gan gynnwys y disgrifiad swydd, manyleb y person, a gwybodaeth ar sut i wneud cais, ewch i <https://candidates.perrettlaver.com/vacancies> gan ddyfynnu cyfeirnod **6716**. Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais gyflwyno CV (gan gynnwys manylion cynhwysfawr am gyflawniadau a chyfrifoldebau allweddol) ynghyd â llythyr eglurhaol sy'n mynd i'r afael yn llawn â'r cymwyseddau a amlinellir ym manylebau'r rôl a'r person.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **9yb (GMT) Dydd Llun 4 Medi 2023**.

Bydd Criced Cymru yn derbyn cefnogaeth gyda'r penodi hwn gan y cwmni chwilio gweithredol Perrett Laver. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau cychwynnol at **Grace Fakes** ar Grace.Fakes@perrettlaver.com a **+44 (0)20 7340 6221**.

Hygyrchedd

I gael sgwrs gyfrinachol, cysylltwch â **Grace Fakes** yn Grace.Fakes@perrettlaver.com a **+44 (0)20 7340 6221**.

Os oes angen i chi gael y dogfennau hyn mewn fformatau gwahanol, cysylltwch ag **Erika Wilkin** ar Erika.Wilkin@perrettlaver.com a **+44 (0) 20 3928 7397**.

Os oes gennych sylwadau a fyddai'n ein cefnogi i wella mynediad at ddogfennau, neu ein prosesau ymgeisio yn fwy cyffredinol, mae croeso i chi gysylltu â ni ar accessibility@perrettlaver.com.



Cynhwysiant

Mae Criced Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd diogel a chynhwysol i bawb fwynhau'r gêm, yn enwedig plant. Rydym yn dilyn arferion Recriwtio Mwy Diogel i sicrhau bod yr holl staff a'n gwirfoddolwyr yn addas ar gyfer eu rôl, yn cael eu harchwilio'n briodol, ac yn cael eu cefnogi gennym ni. Cymeradwyir y dull a'r polisi hwn gan Fwrdd Criced Cymru. Cewch ragor o wybodaeth am Ymrwymiad Criced Cymru i Recriwtio Mwy Diogel [yma](#).

Mae Perrett Laver yn credu mai'r ffordd i sicrhau rhagoriaeth yw drwy gydnabod gwerth pob unigolyn. Mae'n hanfodol cael ystod eang o safbwyntiau, cefndiroedd a barn ymhlith ein cymuned fyd-eang o gydweithwyr er mwyn cynnal ein diwylliant o fod yn agored, chwilfrydedd deallusol a chreadigrwydd. Rydym yn cymryd rôl weithredol wrth gefnogi cymunedau a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli i gael cynrychiolaeth well a fwy teg ymhlith arweinyddiaeth pob sefydliad. Rydym hefyd yn gwybod bod timau amrywiol a chynhwysol yn cael effaith gadarnhaol ar ein gallu i adnabod, ymgysylltu a sicrhau ymgeiswyr o'r grwpiau hyn.

Mae ein hymrwymiad i gynhwysiant ar draws hil, rhyw, oedran, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth a phrofiad yn ein gyrru bob dydd – ar gyfer cleientiaid, ar gyfer adnabod ymgeiswyr ac wrth recriwtio, datblygu a chadw cydweithwyr.

Er mwyn sicrhau cynhwysiant ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, amgylchiadau teuluol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, cenedligrwydd, credoau gwleidyddol neu grefyddol, hil, cefndir economaidd-gymdeithasol, a chyfeiriadedd rhywiol, hoffem wahodd ceisiadau yn benodol gan grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli.

Diogelu Data a Phreifatrwydd

Mae diogelu eich data personol yn bwysig iawn i Perrett Laver ac rydym yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif. Mae unrhyw wybodaeth a gesglir gan ein hadrannau masnachu'n cael ei chadw a'i phrosesu yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol. Mae'r data rydych chi'n ei ddarparu i ni yn cael ei storio'n ddiogel ar ein cronfa ddata gyfrifiadurol a'i drosglwyddo i'n cleientiaid at ddibenion eich cyflwyno chi fel ymgeisydd a/neu ystyried eich addasrwydd ar gyfer rôl yr ydych wedi dangos diddordeb ynddi.

Fel y diffinnir o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae Perrett Laver yn Reolwr Data ac yn Brosesydd Data, a'n sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw 'Buddiannau Dilys'. Mae gennych yr hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich data yn y modd hwn. I gael mwy o wybodaeth am hyn, eich hawliau, a'n hymagwedd at Ddiogelu Data a Phreifatrwydd, ewch i'n gwefan: <http://www.perrettlaver.com/information/privacy/>.